Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ein cyf: NB/mm

Gofynnwch am: Nick Bennett

01656 641152

Dyddiad: 8 Awst 2019

Marilyn.morgan@ombudsman.wales

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Drwy E-bost yn Unig:
SeneddPAC@assembly.wales

Annwyl Nick

Diolch i chi am eich llythyr ar 25 Gorffennaf 2019. Rydw i'n croesawu sylwadau cadarnhaol y Pwyllgor ar y camau rydyn ni'n eu cymryd mewn ymateb i'w argymhellion. Er bod y Pwyllgor yn ymddangos yn fodlon â'r dull yn y rhan fwyaf o feysydd, mae eich llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio cytundebau setlo.

O edrych ar adroddiad y Pwyllgor a'ch gohebiaeth chi ers i'r Pwyllgor graffu ar y cyfrifon ym mis Hydref y llynedd, mae'n glir bod taliadau arbennig yn dal yn fater mae'r Pwyllgor yn dymuno ei ystyried ymhellach. Er fy mod yn awyddus i roi ateb llawn, rwy'n ofni bod cais y Pwyllgor yn un anodd. Rwyf wedi ymrwymo i fod yn atebol ac yn agored a does gen i ddim pryderon ynglŷn â pha mor briodol yw'r cytundebau a gymeradwywyd a'u gwerth am arian. Fodd bynnag, oherwydd eu natur, mae'r cytundebau yn bersonol ac yn gyfrinachol. O dan y cytundebau, mae'r ddau barti wedi'u rhwymo i gyfrinachedd, ac eithrio achosion lle mae pryder chwythu'r chwiban yn berthnasol. Pe bawn i'n darparu rhagor o fanylion am y cytundebau rydych chi'n cyfeirio atynt, byddai hynny'n golygu fy mod yn torri'r cytundebau cyfreithiol ac, yn enwedig oherwydd bod hwn yn sefydliad bach, byddai'n peri risg bod data personol y rheini sydd dan sylw yn cael eu datgelu a bod modd eu hadnabod.

Roedd eich llythyr ar 25 Gorffennaf yn gofyn am ragor o fanylion am werth am arian y taliadau ac a oes modd rhannu rhagor o fanylion am natur y taliadau hyn â'r Pwyllgor. Er nad wyf yn gallu darparu'r manylion cyfrinachol, mae nifer o bwyntiau rwy'n gobeithio y byddant yn rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl i'r Pwyllgor.

- Cafodd y taliadau arbennig a wnaed yn 2017/18 eu gwneud yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

- Mae’r gofynion adrodd, sy’n cael eu nodi yn yr un ddogfen, yn adlewyrchu bod angen bod yn atebol ac yn dryloyw gan barchu cyfrinachedd y cytundebau a’r angen i ddiogelu data personol.  Cafodd y taliadau eu dangos yng nghyfrifon 2017/2018 ac fe gytunwyd ar y cyflwyniad yn y cyfrifon â'r archwilwyr allanol.
- Er bod tri thaliad arbennig wedi cael eu gwneud yn 2017/18, does dim taliadau arbennig eraill wedi cael eu gwneud yn ystod fy nghyfnod yn y swydd.  Nid ydynt yn cael eu defnyddio fel mater o drefn.
- Roedd pob un o'r taliadau yn gysylltiedig â therfynu cyflogaeth.
- Fel arfer, caiff cytundebau setlo eu cydnabod a’u derbyn fel ffordd o ffurfioli cytundebau gwirfoddol rhwng cyflogwyr a gweithwyr, er budd y ddau barti.
- Cafodd y cytundebau eu gwneud yn unol â Chod Ymarfer ACAS ar gyfer Cytundebau Setlo.  Mae Model Cytundebau Setlo ACAS yn cynnwys darpariaethau cyfrinachedd yng nghyswllt materion sensitif sy’n ymwneud â staff, ar gyfer y cyflogwr a’r gweithiwr.
- Rwyf wedi mynd ati i geisio cyngor cyfreithiol, ariannol ac adnoddau dynol ym mhob achos cyn cytuno i fwrw ymlaen â'r taliadau.  Roedd y penderfyniadau a wnaed yn adlewyrchu'r cyngor a gefais.
- Yn unol â’r gofynion, darparwyd cyngor cyfreithiol annibynnol i'r staff wnaeth lofnodi’r cytundebau, heb iddo gostio dim iddyn nhw.
- Mae’r cytundebau yn cynnwys cyfrinachedd ar gyfer y ddau barti, ond maent yn nodi’n benodol eu bod yn caniatáu datgeliadau chwythu'r chwiban.

Gan ystyried y gofyniad cyfrinachedd, ni allaf ddarparu manylion yr amgylchiadau ar gyfer unrhyw achos.  Fodd bynnag, rwyf y fodlon (fel y mae gofyn i mi fod fel Swyddog Cyfrifyddu) fy mod wedi ceisio cyngor cyfreithiol, ariannol ac adnoddau dynol priodol ym mhob achos a bod y setliad yn briodol ac yn cynnig gwerth am arian, gan ystyried gwerth y taliadau a'r costau y byddai’n rhaid eu hysgwyddo fel arall, o bosib.

Rwyf yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**Nick Bennett**
Ombwdsmon